Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Penodi Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)

Dyddiad cau:
6 Awst 2021 am 16:00

Rheoleiddiwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Cynnwys

	Tudalen
Llythyr i ymgeiswyr gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	3-4
Gwneud Cais	5-7
Atodiad A: Rôl Annibynnol Aelod	8-10
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	11-12
Atodiad C: Y broses ddethol	13-14

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Annwyl Ymgeisydd,

Swyddi gwag i Aelodau Annibynnol – Trydydd Sector

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel Aelod Annibynnol, gyda diddordeb arbennig i gynrychioli'r trydydd sector ledled Gogledd Cymru. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i rannu gwybodaeth am y Bwrdd Iechyd a sut y gallwch chwarae rhan bwysig mewn llunio dyfodol gwasanaethau gofal iechyd i'n cymunedau ledled Gogledd Cymru.

Ni yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.8 biliwn a chyda gweithlu o fwy na 17,000 o staff sy'n darparu gwasanaethau cychwynnol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai acíwt ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'n tri phrif safle ysbyty yn Ysbyty Gwynedd. Bangor, Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, rydym hefyd yn gyfrifol am ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl, timau cymunedol, rhai meddygfeydd teulu a gwasanaethau eraill y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr.

Cyflawnwyd gwelliannau sylweddol i rai o'n gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i symud y Bwrdd Iechyd allan o fframwaith Mesurau Arbennig Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn parhau mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu, rydym yn hyderus y gallwn barhau â'r siwrnai hon o welliant.

Fel gweddill y GIG, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar ein cleifion, staff a gwasanaethau. Mae wedi bod yn gyfnod hynod heriol, ac wrth inni ddechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd rydym yn canolbwyntio ar ailgychwyn gwasanaethau a datblygu a gweithredu cynlluniau trawsnewidiol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gwybod fod llawer o waith i'w wneud i sicrhau fod gennym wasanaethau diogel a chynaliadwy i boblogaeth Gogledd Cymru yn y blynyddoedd nesaf.

Os ydych chi'n teimlo y gallwch wneud cyfraniad i'n cynorthwyo i gyflawni ein huchelgeisiau fel Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, gan ddod â mewnwelediad, profiad ynghyd â gwerthoedd, gobeithiwn y byddwch yn rhoi o'ch amser i ganfod mwy am y rôl o fewn y pecyn briffio hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir

Mark Polin OBE QPM
Cadeirydd

Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr: Swyddfa'r Gweithredwyr:

Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd Bangor, Gwynedd LL57 2PW
Gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd gan yr Aelod Annibynnol newydd brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth am y Trydydd Sector, a'r gallu i gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon ar lefel strategol er budd y Bwrdd, er mwyn sicrhau bod barn cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn o ran helpu i lunio, datblygu a gwella gwasanaethau. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn darparu manylion am rôl yr Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) a manyleb bersonol, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan apwyntiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

Noder, i ymgeisio, mae'n rhaid i chi fod yn gweithio i, neu yn aelod o sefydliad trydydd sector sy'n gweithredu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Prifysgol: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd a chlicio ar 'Gwneud Cais' ar y gornel chwith isaf. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen llenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen cofrestru, a byddwch yn gallu derbyn diweddariadau am eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, trwy'r cyfrif a gofrestrwyd.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen uwchlwytho datganiad personol a CV yn yr adran 'Rhesymau dros wneud cais' o fewn y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych chi'n cwrdd â phob un o'r meini prawf a nodir yn y fanyleb bersonol. Chi sydd i benderfynu sut y dymunwch gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac yn disgrifio beth oedd eich rôl wrth sicrhau canlyniadau penodol y cyfeirir atynt. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch ddangos pa dystiolaeth benodol a ddarperir gennych sy'n ymwneud â pha feini prawf. Mae darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf yn arfer cyffredin.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen; ni fydd unrhyw ddeunydd sy'n hirach na dwy dudalen yn cael ei ystyried.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd gyfredol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau y bu i chi wneud y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol os gwelwch yn dda.

Geirda

Darparwch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y byddwn yn cysylltu â hwy yn achos ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Amserlen arfaethedig

Dyddiad cau:	6 Awst 2021 am 16:00
Rhestr fer:	12 Awst 2021
Cyfweliadau:	14-17 Medi 2021

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Mae croeso arbennig i geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â nam neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel y gall yr holl staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cyfweld unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn cwrdd â'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn cwrdd â lefel cymhwysedd y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Gofynnir i chi nodi a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y Cynllun Cyfweld Gwarantedig yn eich cyflwyniad.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Apwyntiadau Cyhoeddus, penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth am rôl Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a rôl yr Aelod Annibynnol (Trydydd Sector), cysylltwch â'r Cadeirydd Mark Polin, neu Louise Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd.

E-bost: mark.polin@wales.nhs.uk, neu louise.brereton@wales.nhs.uk

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch i ymgeisio am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Atodiad A

Penodi Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Disgrifiad o'r rôl a manyleb bersonol

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelodau Annibynnol ymhlith pethau eraill yn:

- Cyfrannu at waith y Bwrdd, yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad a'ch gwybodaeth yn y gorffennol, a'ch gallu i sefyll yn ôl o'r rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd.
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol i sicrhau proses benderfynu gydgysylltiedig, gadarn a thryloyw gan y Bwrdd.
- Ymhen amser, yn dod i ddeall y busnes yn llawn trwy gyfranogiad gweithredol i alluogi perfformiad effeithiol y sefydliad.
- Gweithio'n agos gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill a sicrhau bod barn cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn chwarae rhan lawn mewn helpu i lunio, datblygu a gwella gwasanaethau.
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth yn feirniadol a chyfrannu at wneud penderfyniadau cadarn, gan sicrhau bod penderfyniadau yn agored a thryloyw.

Manyleb Bersonol

Meini Prawf Hanfodol

I gael eich ystyried, mae'n rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol i gael eich penodi.

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r gallu i gyfrannu'n effeithiol fel rhan o Fwrdd unedol.
- Y gallu i roi safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar ystod o faterion sensitif a chymhleth.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am y trydydd sector ar draws Gogledd Cymru.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am brosesau llywodraethu corfforaethol.
- Gwybodaeth am faterion a blaenoriaethau mewn cymunedau lleol ac empathi tuag atynt.
- Dealltwriaeth am Egwyddorion Nolan

Rhinweddau a Sgiliau Personol

Ymrwymiad i werthoedd y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys dangos ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gleifion, gallu i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid a'r gallu i werthfawrogi a pharchu eraill, gan gyfathrebu'n agored ac yn onest.

Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg.
- Profiad o gadeirio pwyllgorau

YR IAITH GYMRAEG

Ar gyfer y rôl Aelod Annibynnol Trydydd Sector, mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn rhagofyniad ar gyfer penodi. Fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad tuag at yr iaith a dangos arweinyddiaeth i gryfhau darpariaeth gwasanaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru. Ar gyfer y rôl hon, byddwn yn edrych am y sgiliau iaith Gymraeg a ganlyn:

Deall = 2 - Yn gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd
Darllen = 2 - Yn gallu darllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth
Siarad = 2 - Yn gallu sgwrsio mewn sgyrsiau syml sy'n gysylltiedig â gwaith
Ysgrifennu = 1 - Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad	Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ledled Gogledd Cymru. Treialwyd y defnydd o gyfarfodydd rhithiol yn llwyddiannus yn ystod pandemig Covid-19, ac rydym yn cynnig cael dull cyfunol o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.
Ymrwymiad Amser	Mae swydd Aelod Annibynnol yn seiliedig ar ymrwymiad tybiannol o leiaf bedwar (4) diwrnod y mis, ond bydd hyn yn ddarostyngedig i ofynion sefydliadol ac yn aml mae'n uwch na'r gofyniad sylfaenol.
Daliadaeth y Swydd	Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn pennu hyd y penodiad, a fydd am hyd at bedair (4) blynedd i ddechrau. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar i'r Aelod Annibynnol aros yn gymwys ar gyfer y rôl trwy gydol y tymor. Gall aelodau'r bwrdd gael eu penodi am ddau dymor, hyd at uchafswm o wyth (8) mlynedd gyda'r Bwrdd Iechyd
Tâl	£15,936 y flwyddyn.

Cymhwysedd
Bydd unigolyn yn cael ei wahardd o'i benodiad os yw ef / hi:

a. o fewn y pum (5) mlynedd flaenorol wedi ei gael yn euog yn y Deyrnas Unedig (DU), Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd ac wedi derbyn dedfryd o garchar (os cafodd ei gohirio neu beidio) am gyfnod o ddim llai na tri (3) mis;
b. wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr;
c. wedi cael ei ddiswyddo, heblaw oherwydd anghyflogaeth neu beidio ag adnewyddu contract tymor penodol, o unrhyw gyflogaeth â thâl gyda chorff gwasanaeth iechyd;
d. yn unigolyn y mae ei ddeiliadaeth swydd fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd wedi'i derfynu oherwydd nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu diddordeb ariannol; a / neu
e. yn weithiwr gwasanaeth iechyd;

Yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai holl weithwyr diweddar Byrddau Iechyd Lleol (BILl) ac Ymddiriedolaethau'r GIG gael bwlch digyswllt cyn cael eu hystyried ar gyfer Penodiad Cyhoeddus gan y GIG.

Dylai unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio'n sylweddol ar eich cais am benodiad gael ei ddatgan ar y ffurflen gais o dan yr adran Gwrthdaro Buddiannau.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ar bob achlysur.

Yn benodol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a fyddai'n embaras iddyn nhw eu hunain neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys yn dilyn apwyntiad.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi fod aelodaeth o FILl yn eich anghymwyso ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymwyso) 2020. The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020 (legislation.gov.uk).

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir yr apwyntiad oddi tanynt. Bydd eich penodiad yn destun gwiriad geirda a wneir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac i wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a wneir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae mynychu Rhaglen Ymsefydlu Aelodau Annibynnol GIG Cymru yn orfodol wrth gael eich penodi a bydd gofyn i chi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro Buddiannau
Wrth wneud cais bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu a allai gael ei weld i fod yn gwrthdaro â'ch rôl a cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddogaethau o awdurdod y tu allan i'r rôl ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Archwilir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn i chi ddatgan y buddion hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Disgwylir i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gellir gweld y ddogfen hon yma: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cefndir

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 fel rhan o raglen ddiwygio Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am wella iechyd a lles poblogaeth o dros 670,000 o bobl ar draws chwe sir Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys atal afiechydon, yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd rhagorol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau iechyd cychwynnol, cymunedol a meddyliol yn ogystal â gwasanaethau ysbyty acíwt. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol, ac mae hefyd yn darparu iechyd gwasanaethau iechyd a gofal yng Ngharchar HMP Berwyn, Wrecsam. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyd-drefnu gwaith 98 practis meddyg teulu, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan 89 practis deintyddol, 74 practis optometreg ac optegwyr a 152 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

Cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi o dan Fesurau Arbennig yn 2015, a gostyngwyd y statws ymyrraeth yn ddiweddar i statws Ymyrraeth a Dargedwyd, penderfyniad sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma. Mae hyder y byddwn yn parhau ar y daith hon o welliant. Ym mis Ionawr 2021 cymrodd Jo Whitehead yr awenau fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, ac ynghyd â'r Cadeirydd, bydd yn arwain y Bwrdd wrth i ni wynebu sawl her, gan gynnwys ein hymateb i Covid-19 a'i effaith, a gwaith i adfer ein llwybrau gofal wedi'i gynllunio ac i ddechrau mynd i'r afael â rhestrau aros. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal cychwynnol a chymunedol, gwella gofal heb ei drefnu, gofal brys a gwasanaethau iechyd meddwl.

Rôl y Bwrdd

Rôl y Bwrdd yw:

- Llunio strategaeth ar gyfer y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth leol.
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod y systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.
- Llunio diwylliant cadarnhaol i'r Bwrdd a'r sefydliad.
- Cynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol.
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae'n cyfarfod bob yn ail fis ac mae'n cynnwys y Cadeirydd, deg Aelod Annibynnol, tri Aelod Cyswllt, y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal sy'n rhannu

cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn bresennol fel prif gynghorydd ar bob agwedd ar lywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys wyth pwyllgor a dau is-bwyllgor, er bod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Y rhain yw:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl, gydag Is-bwyllgor Rhyddhau Deddf Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gydag Is-bwyllgor Grŵp Cynghori ar Gronfeydd Elusennol

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV'au a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy y credir sy'n cwrdd y meini prawf ar gyfer y swydd orau, ac a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Dim ond ar sail y wybodaeth a roddwch yn eich CV a'ch datganiad y bydd y panel yn dibynnu i asesu a oes gennych chi'r sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych chi'n cwrdd â phob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Mark Polin, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, a bydd hefyd yn cynnwys Olivia Shorrocks, (Llywodraeth Cymru), ac Aelod Panel Annibynnol Cynghorydd Louise Emery, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Efallai y bydd eich cais ar "restr hir", yn amodol ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, cyn ei basio i'r panel fydd yn pennu rhestr fer. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel yn cwrdd yn ystod mis Awst i benderfynu pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Medi. Ein bwriad yw y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn rhithwir dros MS Teams.

Ni fydd y panel yn dewis ar gyfer cyfweliad ond yr ymgeiswyr cryfaf y teimlant iddynt ddangos eu bod yn cwrdd orau â'r meini prawf a nodir yn y fanyleb bersonol. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun cyfweld gwarantedig **a'ch bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol sylfaenol** ar gyfer y swydd, yna fe'ch gwahoddir i gael cyfweliad hefyd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi cael ei ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn anelu i ddarparu cymaint o rybudd ag y gallwn o ddyddiad y cyfweliad. Os nad ydych yn gallu mynychu ar ddyddiad y cyfweliad a drefnwyd, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd yn bosibl gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn derbyn cyfathrebiad trwy e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad neu beidio.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **cwrdd â'r meini prawf** a nodwyd ar gyfer y swydd.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i Weinidogion a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Os bydd ef/ hi yn gwneud hynny, bydd ef/ hi yn cwrdd â phob ymgeisydd ac ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu eu cynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng cyfweliad a

gwneud y penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu diweddaru am y sefyllfa.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi fel Aelod Annibynnol o'r Bwrdd (Trydydd Sector) o Fwrdd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a bydd y llythyr yn cadarnhau'r telerau y bydd y penodiad yn cael ei gynnig.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael gwybod trwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn darparu manylion pwy y gallwch gysylltu gyda hwy i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch.

Ymholiadau
Os oes gennych ymholiadau am eich cais, cysylltwch â
penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn gwbl fodlon
Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at brosesu pob cais cyn gynted â phosibl ac i drin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â
penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru